

Cwpan Efe Pêl-droed a Phêl-rwyd

Nos Wener nesaf Mehfin 27

Cynhelir noson bêl-droed 5-yr-ochr ar gyfer plant oed cynradd (Blwyddyn 3–6) ar gae Ysgol Gynradd Llanrug, nos Wener, Mehefin 27. Dechreuir am 6.00 o'r gloch, a daw'r chwarae i ben erbyn 9.00 o'r gloch.

Dyma fydd y pedwerydd tro i ni gynnal y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul y fro. Mae croeso i fechgyn a genethod gymryd rhan eleni eto.

Bydd cystadleuaeth bêl-rwyd i enethod blwyddyn 3–6 ar fuarth yr Ysgol.

Eleni eto, bydd egwyl fer er mwyn rhoi cyfle i'r plant a'r gynulleidfa glywed neges syml am y Ffydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehfin 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Eleri Jones

Mehfin 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Lewis

Gorffennaf 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gorffennaf 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Rhowch wybod i Andrew os bydd tim o'ch Ysgol Sul yn cymryd rhan er mwyn iddo allu trefnu'r gemau.

Ffoniwch

0792 9916181 neu anfon e-bost at:
gosodcoeden@hotmail.com

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Wener, Mehefin 27: Cwpan Efe - gweler y nodyn ar y chwith.

Dydd Sul, Mehefin 29: Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaeth yng ngofal y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Mehefin 27: Cwpan Efe - gweler y nodyn ar y chwith.

Dydd Sul, Mehefin 29: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatree. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 29: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mehfin 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehfin 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatree
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Gorffennaf 6

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen
5.00 p.m. - Mrs Glenys Jones

Gorffennaf 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

3 ...

2 ...

1 ...

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 597 – Dydd Sul, 22 Mehefin, 2014

Heddwch

Daeth 25 mlynedd o gyflwyno rhaglen deledu nosweithiol i ben i Jeremy Paxman nos Fercher ddiwethaf gyda'i ymddangosiad olaf ar *Newsnight* ar BBC2.

Dwi'n dal i geisio dyfalu pam y clywyd 'I'd like to teach the world to sing' ar ddiwedd y rhaglen. Cân o ddechrau'r saithdegau yw hon, a gyfansoddwyd yn wreiddiol ar gyfer un o hysbysebion Coca-Cola gyda'r geiriau, 'I'd like to buy the world a Coke', cyn dod yn gân bop lwyddiannus gyda geiriau newydd gan y New Seekers (er iddi gael ei chanu gan grŵp arall cyn hynny).

'I'd like to build the world a home
And furnish it with love ...

'I'd like to teach the world to sing
In perfect harmony ...

'I'd like to see the world for once
All standing hand in hand
And hear them echo through the hills
Ah, peace throughout the land.'

Dros y chwarter canrif, bu Jeremy Paxman yn cyflwyno newyddion am bob math o anghydfod ym mhob rhan o'r byd. Rhyfeloedd, terfysgoedd, sgandalau, etholiadau, problemau o bob math – bu Paxman yn trafod y cyfan gan holi a herio gwleidyddion o bob lliw a llun. Roedd yn enwog am ei holi treiddgar ac am finigrwydd ei dafod, ac yn amlach na heb roedd stiwdio *Newsnight* yn bopeth ond pobl law yn llaw mewn harmoni a heddwch.

Pam y gân hon felly? Eironi o bosibl. Neu goegni. Neu tybed oedd dewis y gân yn fynegiant o ddymuniad gonest a diffuant Paxman ei hun (neu aelodau tim cynhyrchu'r rhaglen) i weld y byd, er gwaetha'r holl anghyfiawnderau a'r anghydfod y bu'n eu trafod mor ddeheuig dros chwarter canrif, yn byw mewn cariad a chymod a heddwch am unwaith?

Nôl yn 1989 pan ddechreuodd Paxman gyflwyno *Newsnight*, saethwyd dwy o awyrennau rhyfel Libya gan awyrlu'r America; cyhoeddodd yr Ayotolla Khomeini y dylid lladd Salman Rushdie; lladdwyd miloedd yn Sgwâr Tiananmen yn Beijing; a chympodd Wal Berlin. Mae'r enwau a'r llefydd yn wahanol erbyn hyn, ond yr un math o broblemau sy'n wynebu'r byd wrth i Paxman orffen cyflwyno'r rhaglen. A'r gwir amdani yw bod angen mwy na breuddwyd a siarad hiraethus er mwyn sicrhau heddwch a harmoni. Roedd 'I'd like to teach the world to sing' yn gân hynod o boblogaidd yn ei dydd. Ond mae angen mwy na chân i gael pobl i fyw'n gytûn.

Rhyfeddod yr Efengyl yw ei bod yn cyhoeddi mai Iesu Grist yw'r gwir a'r unig ffordd i gymodi pobl â Duw ac â'i gilydd. Yng Nghrist y daw pobl yn un. Yng Nghrist y caiff hen elynion eu cymodi â'i gilydd. Yng Nghrist y mae pobl yn gallu caru a maddau. Ac mae'r cyfan yn bosibl am fod Duw yng Nghrist wedi'n caru, ac wedi maddau i ni, ac wedi ein cymodi ni ag ef ei hun.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Eleri Jones, Bangor.

Byddaf yn arwain yr Oedfa Deulu yn Llanberis am 10.30 o'r gloch, a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Cwpan Efe

Nos Wener, Mehefin 27

Manylion ar gefn y rhifyn hwn

Ehangu'r Ofalaeth

Bydd ffinau'r Ofalaeth hon yn ymestyn o ddechrau'r flwyddyn nesaf ymlaen i gynnwys dwy eglwys arall, sef eglwysi Annibynnol Carmel, Llanllechid a Bethlehem, Talybont.

Mae Pwyllgor yr Ofalaeth wedi bod yn ystyried gwahodd eglwysi eraill i ddod yn rhan o'r Ofalaeth ers cryn amser. Daeth cyfle i wneud hynny ychydig fisoedd yn ôl pan ddeallwyd bod y ddwy eglwys hyn yn awyddus i sicrhau gweinidogaeth. Hyd at yr hydref 2013, roeddent dan weinidogaeth y Parchg Geraint Hughes, sydd wedi ymddeol i Bwllheli erbyn hyn.

Estynnwyd gwahoddiad iddynt anfon cynrychiolwyr i gyfarfod â Phwyllgor yr Ofalaeth, ac fe'u croesawyd atom nos Lun, Mawrth 31 eleni. Cafwyd trafodaeth galonogol iawn a gwelwyd y gallai manteision amlwg ddod i bawb o fedru dod â'r ddwy eglwys yn rhan o'r Ofalaeth.

Wedi'r cyfarfod roedd angen i'r ddwy eglwys gael cyfle ac amser i drafod a dod i benderfyniad.

Cawsom wybod nos Sul ddiwethaf fod y ddwy eglwys erbyn hyn wedi dod i benderfyniad o blaid ymuno'n llawn â'r Ofalaeth hon, a'u bod yn awyddus i wneud hynny o ddechrau mis Ionawr 2015 ymlaen.

Llawenydd felly yw cyhoeddi ein bod yn edrych ymlaen at groesawu'r ddwy eglwys i'r Ofalaeth ddechrau 2015.

Cawn amser dros yr wythnosau nesaf i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer dechrau'r flwyddyn.

Yn amlwg bydd gofyn newid rhywfaint ar drefn f'oedfaon i ar y Sul. Y bwriad yw fy mod yn pregethu ddau bnawn Sul y mis ym Methlehem a dwy nos Sul y mis yng Ngharmel.

Er mwyn i mi fedru gwneud hyn, bydd Deiniolen a Llanberis yn colli un o'm hoedfaon nos Sul y mis yr un. Bydd angen i ni drafod sut i ymateb i'r newid hwn, wrth gwrs.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r ddwy eglwys i'r Ofalaeth gan ddeisyf bendith Duw ar y bwriad a'r trefniant newydd. Hyderwn y bydd y trefniadau newydd yn gymorth i ddiogelu gweinidogaeth yr eglwys ac i hyrwyddo gwaith Efengyl Iesu Grist yn ein plith.

Y Pedair Tudalen

Fel y soniais y Sul diwethaf, daw fy nhymor fel Golygydd *Y Pedair Tudalen* yn y papurau enwadol i ben ddiwedd Rhagfyr eleni. Rwyf wedi mwynhau'r gwaith hwn ers i mi gychwyn y gwaith ddechrau Hydref 2008. Roeddwn i fod i orffen ddiwedd Medi y llynedd ond fe gytunais i wneud 15 mis ychwanegol. Mae'n rhyfedd iawn fel y mae pethau'n ffitio i'w lle yn daclus, Caf wared â'r cyfrifoldeb hwn ddiwedd Rhagfyr cyn cychwyn yng Ngharmel a Thalybont ddechrau Ionawr. Rhagluniaeth ddoeth a rhyfedd Duw yw peth felly, yn sicr.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yma yn Ebeneser, Deiniolen am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Gorffennaf 9. Bydd y Parchg Ronald Williams yn cyflwyno adroddiad am Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhelir ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddiwedd Mehefin.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Mr Iorwerth Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen, a fu farw ddydd Llun diwethaf, Mehefin 16 yn 91 mlwydd oed.

Roedd yn ŵr bonheddig, yn gymydog da ac yn gymeriad cynnes. Bu'n briod a thad a thaid ffyddlon i'w deulu ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn bob bendith a nerth i'w blant, Pat, Eirian, David, Llion, Glenda a Carys a'u teuluoedd yn eu hiraeth a'u colled.

Cynhelir gwasanaeth angladd cyhoeddus yn yr Amlogfa ym Mangor am 1.30 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Mehefin 23.

Dosbarth Beiblaidd

Daeth Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth i ben dros yr haf yr wythnos ddiwethaf, a byddwn yn ail gychwyn yn yr hydref.

Cymdeithas Undebol

Daeth yn amser gwneud trefniadau ar gyfer tymor newydd y Cymdeithasau Undebol yn Neiniolen a Llanberis.

Bydd pwyllgor yn Llanberis ar ddiwedd y Bore Coffi misol nesaf, fore Mawrth, Gorffennaf 8, tua 11.30 o'r gloch.

Cawn drefnu pwyllgor yn Neiniolen yn fuan.

Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn Festri Capel Coch bnawn Mercher, Gorffennaf 9.

Fel arfer, bydd yno stondinau cacennau, tuniau, tegannau, llyfrau, a nwyddau am-rywiol 'bron yn newydd'.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y stondinau, byddwn yn falch o'u derbyn.